Cyngor Celfyddydau Cymru

# Amodau Grant Safonol - Prosiectau Cyfalaf

Tachwedd 2010

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Supported by
The National Lottery®
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Mae'r canlynol yn amodau grant cyffredinol sy'n ddarostyngedig i amodau penodol a nodir yn y Llythyr Cynnig Grant y mae'r Amodau Safonol wedi'u hatodi iddo (y '**Llythyr Cynnig**') neu (lle bo'n gymwys) yn y Cytundeb Grant rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ('y **Cyngor**') a derbyniwr y Llythyr Cynnig hwn neu'r Cytundeb Grant ('y **Derbyniwr**') ('y **Cytundeb Grant**').

1. Rhaid defnyddio'r Grant (fel y'i diffinnir yn y Llythyr Cynnig a/neu'r Cytundeb Grant) at y diben a nodir yn y cais cymeradwy ac ni ellir ei drosglwyddo.

2. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid ad-dalu'r Grant yn llawn neu'n rhannol ar gais os oes newid yn niben neu berchnogaeth y prosiect a amlinellir mewn cais cymeradwy ('y **prosiect**') neu unrhyw ased a ariennir (yn llawn neu'n rhannol) gan y grant.

3. Monitrir defnydd y Grant yn ystod y Prosiect a'r cyfnod monitro a amlinellir isod ('y Cyfnod Monitro'). Mae hyn yn gymwys yn ystod y Prosiect neu, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn y cyfnodau a nodir isod:

   a) am oes yr ased ar gyfer asedau sy'n arbrisio;

   b) hanner can mlynedd am adeiladau newydd;

   c) chwarter canrif am drwsiadau strwythurol mawr, gwelliannau ac adnewyddiadau i adeiladau;

   d) deng mlynedd am gelfyddyd gyhoeddus;

   e) pum mlynedd am offer ac asedau eraill na chrybwyllir yn benodol.

4. Os newidia diben neu berchnogaeth y Prosiect neu hunaniaeth neu gyfansoddiad neu berchnogaeth y Derbyniwr cyn gorffen y Prosiect, deuir i ben â'r cytundeb a nodir yn y Llythyr Cynnig a/neu'r Cytundeb Grant ac ni thelir rhagor o Grant a bydd gan y Cyngor yr hawl i gael ad-daliad ar gais o unrhyw symiau Grant a dalwyd eisoes. Gellir cyflwyno cais newydd gan y Derbyniwr ac fe'i hystyrir yn ôl ei haeddiant.

5. Os yw cyfanswm costau'r Prosiect yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y cais gwreiddiol a gyflwynir gan y Derbyniwr, bydd y Cyngor yn lleihau'r Grant a gynigir mewn cyfrannedd priodol. Os bydd y lleihad hwn yn golygu bod y taliadau Grant a wnaed eisoes yn uwch na'r Grant diwygiedig, bydd gan y Cyngor hawl i fynnu ad-daliad o'r gordalu a rhaid i'r Derbyniwr ei ad-dalu. Os gwna'r Derbyniwr gais ffurfiol i'r Cyngor i ddefnyddio swm o arian sy'n gyfartal i'r lleihad yn y Grant at ddiben arall cysylltiedig â'r Prosiect, ystyria'r Cyngor yn rhesymol y fath gais ond ni fydd dan ymrwymiad i gytuno â'r cais.

6. Rhaid i'r Derbyniwr anfon adroddiadau cynnydd am y Prosiect yn rheolaidd at y Cyngor. Rhaid i'r Derbyniwr gyflenwi'r Cyngor yn rheolaidd â chopïau o ddogfennau priodol yn ystod cam adeiladu'r Prosiect ar sail flynyddol wedyn yn ddarostyngedig i'r Cyfnodau Monitro. Bydd angen adroddiad ar y cynnydd, sy'n cynnwys adroddiad llawn o wariant ac incwm ar gyfer y Prosiect, o fewn chwe wythnos i gwblhau'r

Prosiect. Wedi hynny bydd angen gwybodaeth sy'n rhoi manylion am incwm a gwariant y Prosiect yn flynyddol dros gyfnod o bum mlynedd. Rhaid i'r Derbyniwr hefyd gyflwyno unrhyw wybodaeth ariannol ychwanegol neu wybodaeth arall y gofynnir amdani gan y Cyngor i fonitro'r defnydd a wneir o'i Grantiau.

7. Rhaid i'r Derbyniwr gymryd camau i fonitro llwyddiant y Prosiect a chyflwyno i'r Cyngor unrhyw wybodaeth y bydd arno ei hangen i ymfodloni fod y Prosiect wedi ei gwblhau'n iawn ac yn unol â'r Llythyr Cynnig a/neu'r Cytundeb Grant a'r Amodau Safonol hyn. Yn ystod y Prosiect a'r Cyfnod Monitro bydd hawl gan y Cyngor i anfon sylwedydd i holl gyfarfodydd pwyllgorau'r Derbyniwr (gan gynnwys pob is-bwyllgor a phob pwyllgor penodi). Yn ystod y Prosiect a'r Cyfnod Monitro, bydd yn rhaid i'r derbynwyr sicrhau bod eu llyfrau a'u cofnodion ar gael i'w harchwilio gan y Cyngor unrhyw amser, a chyda rhybudd rhesymol ymlaen llaw, gan Swyddfa Archwilio Cymru neu archwilwyr mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru. Hefyd yn ystod y Prosiect a'r Cyfnod Monitro bydd hawl gan y Cyngor i anfon sylwedydd i gyfarfodydd corff llywodraethol y Derbyniwr.

8. Bydd y Grant yn mynd yn ddyledus a thaladwy i'r Cyngor ar unwaith os digwydd unrhyw fethiant sef:

a) paid y Derbyniwr ag ymgymryd â phob un o'i weithgareddau neu unrhyw rai ohonynt;

b) lle bo'r Derbyniwr yn gwmni, os gwneir cais i benodi gweinyddwr, os cyflwynir deiseb neu orchymyn i ddod â'r Derbyniwr i ben neu benodi gweinyddwr neu os pasir cynnig effeithiol i ddod â'r Derbyniwr i ben neu os penodir derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol dros holl asedau'r Derbyniwr neu ran ohonynt, neu os cais gweinyddwr neu ddiddymwr neu reolwr gorfodol neu'r Derbyniwr gyfaddawdu neu gyfamodi ag un neu ragor o'i gredydwyr i dalu dyledion neu os â'r Derbyniwr i unrhyw fath o gytundeb gwirfoddol â'i gredydwyr neu os bernir ni all y Derbyniwr dalu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 (gyda'r geiriau 'wedi'i brofi hyd fodloni'r Llysoedd' wedi'u hepgor o'r adran honno)

c) lle bo'r Derbyniwr yn gwmni, os gelwir cyfarfod ynghyd at ddiben ystyried cynnig i ddiddymu'r Derbyniwr neu gyflwyno cais neu ddeiseb i'w ddiddymu ac os gwneir unrhyw orchymyn neu y terfynir unrhyw weithdrefn i'w ddiddymu;

d) lle bo'r Derbyniwr yn unigolyn, os cyflwynir deiseb methdaliad neu os gwneir gorchymyn methdaliad yn ei erbyn neu os cais gyfaddawdu neu gyfamodi â'i gredydwyr neu os gwneir gorchymyn dros dro yn ei erbyn yn unol ag adran 252 o Ddeddf Ansolfedd 1986;

e) os na ddefnyddir yr eiddo at y dibenion y bwriedid ei ddefnyddio parthed y Grant;

f) os ceir mai anwir yw unrhyw wybodaeth, cynrychiolaeth, gwarant neu ddatganiad a ddarperir i'r Cyngor neu a wneir iddo parthed y taliad a wnaed i'r Derbyniwr gan y Cyngor neu unrhyw ddatganiad, tystysgrif neu ddogfen a

gyflwynir neu a wneir gan y Derbyniwr neu ar ei ran yn ffug, anghywir neu gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn o bwys neu os, mewn disgresiwn llwyr y Cyngor, ystyria ef ad-daliad unrhyw Grant a wnaed i'r Derbyniwr gan y Cyngor yn unol â thelerau'r fath Grant i fod mewn perygl;

g) os metha'r Derbyniwr gyflawni unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth o bryd i'w gilydd sy'n ddyledus gan y Derbyniwr i'r Cyngor

h) os metha'r Derbyniwr ddefnyddio'r grant at y diben yr oedd iddo'n wreiddiol neu os metha gwblhau'r prosiect;

i) os llenwyd y ffurflen gais yn dwyllodrus, anghywir neu gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn o bwys;

j) os twyllodd y Derbyniwr yn ystod y broses o ymgeisio neu o gydymffurfio ag Amodau'r Grant;

os bu'r Derbyniwr yn ymddwyn yn dwyllodrus neu yn esgeulus unrhyw amser yn ystod cwblhau'r prosiect;

os metha'r Derbyniwr â chydymffurfio ag Amodau'r Grant.

k) lle codir, gorfodir neu dygir atafaeliad, perchnogi, secwestraeth neu broses gyfreithiol debyg ar asedau'r Derbyniwr neu yn eu herbyn ac nis ryddheir ac nis gohirir o fewn 7 niwrnod;

l) lle bo unrhyw warant (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw forgais, aseiniad neu lyffethair arall) yn dod yn orfodadwy;

m) lle caiff ym marn y Cyngor unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau effaith wael sylweddol ar weithgareddau, busnes, gweithredu, eiddo neu ragolygon y Derbyniwr a/neu'n debygol o gael effaith wael ar allu'r Derbyniwr i berfformio neu gydymffurfio fel arall â'i rwymedigaethau dan y Llythyr Cynnig a/neu Gytundeb Grant a'r Amodau Safonol hyn.

(gyda'i gilydd 'digwyddiadau methiant')

9. Er gwaethaf darpariaethau paragraff 8 uchod, os bydd digwyddiad methiant lle bo Llythyr Cynnig a/neu Gytundeb Grant ond ni thalwyd Grant, bydd y cynnig yn y Llythyr Cynnig yn methu ar unwaith ac ni fydd rhwymedigaeth ar y Cyngor i dalu unrhyw Grant i'r Derbyniwr.

10. Er gwaethaf darpariaethau paragraff 8 a 9 uchod, os bydd Digwyddiad Methiant lle bo rhagor o daliadau Grant yn ddyledus, terfyna'r Llythyr Cynnig a/neu'r Cytundeb Grant ar unwaith ac ni thelir rhagor o symiau o Grant.

11. Cytuna'r Derbyniwr na ellir gwarantu arian y Cyngor dim ond i'r graddau y pery Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i weithredu ac y bydd arian y Cyngor ar gael.

12. Ar gais y Cyngor, rhaid i'r Derbyniwr lenwi arwystl cyfreithiol mewn ffurf sy'n ofynnol gan y Cyngor dros dir a/neu adeiladau fel y gofynna'r Cyngor.

13. Ni ellir gwerthu eiddo, offer, asedau neu nwyddau a gafwyd, a wellwyd neu a drwsiwyd gan ddefnyddio'r Grant o fewn y Cyfnod Monitro heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

14. Yn ei ddisgresiwn llwyr, gall y Cyngor gofrestru buddiant yn y Gofrestrfa Tir i atal gwaredu anawdurdodedig unrhyw dir a/neu adeiladau.

15. Os bydd gwerthiant neu warediad o eiddo, offer, asedau neu nwyddau a ariennir (yn llawn neu'n rhannol) gan arian y Cyngor a gafwyd neu a adnewyddwyd, a wellwyd neu a drwsiwyd gan ddefnyddio'r Grant, bydd gan y Cyngor hawl i gyfran o'r elw sy'n gymesur uniongyrchol â'r gyfran o'r costau perthnasol gwreiddiol a gafwyd o arian y Cyngor. Gellir gosod amodau arbennig ynglŷn â gwerthu asedau a'r dull o benderfynu eu gwerth ar y farchnad pan gânt eu gwerthu.

16. Yn achos prosiectau lle bydd ariannu'r Cyngor yn uwch na £25,000, bydd unrhyw fwriad i godi arian drwy ganiatáu morgais neu arwystl cyfreithiol ar dir neu adeiladau, neu ar sail unrhyw ased arall yn ystod y prosiect neu'r Cyfnod Monitro, angen cymeradwyaeth y Cyngor os yw'r ased hwnnw wedi'i ariannu (yn llawn neu'n rhannol) gan y Cyngor.

17. Lle bwriedir prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith, dylid gweithredu trefn dendro gystadleuol oni bai fod rhesymau pwysicach pam y byddai hyn yn anaddas (e.e. lefelau de minimis). Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd ar gystadlu.

18. Dim ond i gefnogi gwir wariant ar eitemau a nodwyd yn y cais cymeradwy a gyflwynwyd gan y Derbyniwr y gellir defnyddio'r Grant. Ni ellir ei defnyddio i danysgrifio unrhyw rwymedigaethau amodol sy'n deillio o'r prosiect.

19. Nid yw'r Cyngor dan unrhyw rwymedigaeth i gynyddu ei Grant i gwrdd ag unrhyw ddiffyg yng nghyfanswm cyllideb y Prosiect. Gall y Cyngor ystyried ceisiadau diwygiedig i gwrdd â diffyg o'r fath ond bydd y ceisiadau hynny yn cael eu trin yn ôl eu haeddiant eu hunain a bydd y Cyngor yn rhydd i'w derbyn neu eu gwrthod ar yr un sail ag unrhyw gais arall.

20. Mae cynnig amodol y Grant yn y Llythyr Cynnig yn ddilys am ddau fis o'r dyddiad y cyhoeddwyd ef oni nodir yn wahanol yn y Llythyr Cynnig. Pa un bynnag, oni chaiff y Cyngor lythyr derbyn o fewn y cyfnod a nodir yn y Llythyr Cynnig metha'r cynnig yn awtomatig. Os na fydd y Derbyniwr wedi hawlio'r Grant, neu ran ohono, ar ôl naw mis o ddyddiad cyflwyno'r cynnig, neu wedi mynegi mewn ysgrifen pryd bydd y Grant yn cael ei hawlio, cyhoeddir rhybudd yn datgan y metha'r Cynnig yn awtomatig os na wneir unrhyw hawliadau ar ôl i dri mis fynd heibio h.y. blwyddyn wedi'r dyddiad cynnig.

21. Rhaid i'r Derbyniwr sicrhau bod ei archwilwyr neu, lle nad oes raid i'r Derbyniwr baratoi cyfrifon archwiliedig, bwy bynnag sy'n gyfrifol am lunio cyfrifon ariannol y Derbyniwr yn unol â'i gyfansoddiad, yn llenwi llythyr safonol ar ffurf a bennir gan y Cyngor i sicrhau bod yr ased wedi'i wireddu'n gorfforol. Gall y Cyngor ofyn am gopi o ddatganiadau ariannol blynyddol y Derbyniwr a archwilir lle bo'n briodol ar gyfer bob blwyddyn o'r cyfnod monitro.

22. Bydd yn rhaid i Dderbyniwr gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth statudol (boed fel cyflogwr, trwyddedai neu reolwr adeilad neu brosiect) a sicrhau unrhyw ganiatâd statudol angenrheidiol i alluogi'r Prosiect i fynd rhagddo os nad ydynt eisoes wedi'i sicrhau.

23. Er gwaethaf unrhyw ddarpariaethau eraill, rhaid i'r Derbyniwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod y prosiect neu weithgaredd a ariennir yn hygyrch i bobl anabl. Rhaid i'r Derbyniwr gymryd pob cam i sicrhau bod y prosiect neu'r gweithgaredd yn cydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol o Ddeddf Anffafrio'r Anabledd 1995.

24. Rhaid i'r Derbyniwr gymryd camau i sicrhau bod gan unrhyw ased a brynir â chymorth arian y Cyngor (yn llawn neu'n rhannol) ddigon o yswiriant yn erbyn yr holl beryglon arferol.

25. Rhaid i'r Derbyniwr gydymffurfio â phob deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal cymwys.

26. Dylid cydnabod y Grant ar bob deunydd a gyhoeddir ac a argreffir (gan gynnwys ar-lein) yn unol â'r canllawiau a amgaeir gyda'r cynnig grant ac a hysbysir gan y Cyngor i'r Derbyniwr o dro i dro. Mae'r canllawiau hyn i'w cael hefyd yn www.celfcymru.org.uk neu gan Swyddog Dylunio a Chyhoeddi'r Cyngor.

27. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r Grant hwn, nac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor, mewn unrhyw ffordd i awgrymu bod y Cyngor yn ymgymryd â dyledion neu rwymedigaethau Derbyniwr y grant i drydydd partïon neu'n derbyn cyfrifoldeb amdanynt.

28. Mae'r Cyngor yn disgwyl i Dderbyniwr gydweithio'n llawn mewn unrhyw brosiect ymchwil a gynhelir gan y Cyngor neu ar ei ran i unrhyw agwedd o nawdd y Loteri a/neu nawdd y Cyngor yn gyffredinol.

29. Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae gan y Cyngor rwymedigaethau a chyfrifoldebau i ddarparu ar gais aelodau o'r cyhoedd hygyrchedd i wybodaeth ar gofnod y deil y Cyngor. Un o ganlyniadau'r cyfrifoldebau statudol newydd hyn yw y gall gwybodaeth a ddeil y Cyngor am y Derbyniwr neu a geir ganddo fod yn ddarostyngedig i'w datgelu mewn ymateb i gais oni phenderfyna'r Cyngor fod un o'r gwahanol esemptiadau'n gymwys.

30. Pan fo unrhyw wybodaeth berthnasol i Dderbyniwr yn cynnwys Data Personol neu Ddata Personol Sensitif fel y diffinnir y ddau derm yn Neddf Gwarchod Data 1998, sicrha'r Cyngor y bydd yn trin y fath wybodaeth yn unol â gofynion y Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig.

31. Cytuna'r Derbyniwr y gall y Cyngor ddadlennu gwybodaeth a gaiff gan y Derbyniwr neu sydd eisoes ganddo, neu a gaiff yn sgil unrhyw ymholiadau a wneir i gyrff atal twyll neu oddi wrth unrhyw un arall a ganiateir i roi gwybodaeth am y Derbyniwr i'r Cyngor (a elwir at ei gilydd yn 'Wybodaeth') i gyrff atal twyll ac unrhyw gorff arall at ddibenion atal twyll.

32. Cytuna'r Derbyniwr y gellir rhannu'r wybodaeth a ddadlennir gan y Cyngor i gyrff atal twyll a chyrff eraill at ddibenion atal twyll â'r fath gyrff â chyrff eraill at ddibenion atal twyll. Er mwyn osgoi amheuaeth, o ran yr amod hwn mae'n cynnwys unrhyw Wybodaeth a fernir ei bod yn cynnwys Data Personol neu Ddata Personol Sensitif.

33. Cytuna’r Derbyniwr y gall y Cyngor ryddhau gwybodaeth os oes dyletswydd arno i wneud hynny neu os caniatâ'r gyfraith iddo ei wneud.

34. Lle bo'r Derbyniwr yn elusen, rhaid iddo gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Elusennau 1993 a/neu unrhyw ddiwygiad arni neu ailddeddfu ohoni ond nid yn gyfyngedig iddi.

YN GADARN O BLAID • POBL ANABL

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.